CANOLFAN OFAL HENBLAS

27/3/2020

Annwyl riant

Ar ddiwedd yr wythnos rwyf yn ysgrifennu atoch yn y gobaith eich bod i gyd yn cadw'n ddiogel ac yn iach.

Mae wedi bod yn wythnos ryfedd iawn yn Ysgol Henblas – nid ysgol yw hi bellach wrth gwrs ond canolfan ofal. Dydi'r adeilad ddim yr un peth heb y plant ac rydym yn gweld eu colli yn arw. Rwyf hefyd yn siwr fod trigolion Llangristiolus a'r ardal gyfagos yn ei gweld hi'n dawel heb swn hapus a bwrlwm y plant ar yr iard.

Rydym wedi cael gwybod y prynhawn yma fod y canolfannau gofal yn mynd i fod yn parhau wythnos nesaf, ac fe fydd canolfan ofal Henblas yn parhau i fod ar agor i blant y gweithwyr allweddol (fel y diffinir gan y llywodraeth). Dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd. Os fydd newid – fe fyddwn yn cysylltu gyda chi yn brydlon.

Yn dechnegol yn awr mae'r plant ar gyfnod o wyliau estynedig y Pasg. Er ein bod wedi rhannu tasgau i'w cwblhau yn y cartref nid dyna'r flaenoriaeth ar hyn o bryd – dylai'r prif ffocws fod ar hapusrwydd, iechyd a lles ein plant. Mae peth dysgu yn y cartref yn naturiol o fudd ee darllen ac ymarfer tablau, ond yn yr un modd mae digonedd o amser i chwarae, garddio, sesiynau ffitrwydd a chael hwyl yn bwysig!

Cyfnod yw hwn –cyfnod heriol, a phryderus o bosib i lawer o'n plant. Ond fe wnaiff basio, ac edrychwn ymlaen at gael eu cwmni eto o fewn waliau hapus ein ysgol ni - Ysgol Henblas.

Cadwch yn ddiogel ac yn iach a chofion mawr gan yr holl staff at y plantos.

Yn gywir,

Holl staff Ysgol Henblas